| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd** |
| **DYDDIAD** | **17 Tachwedd 2017** |
| **ENW** | **Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** |
| **PWRPAS** | **Ail-sefydlu Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Bod y Pwyllgor yn ail-sefydlu'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'i fod yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl a welir yn Atodiad 1** |
| **AWDUR** | **Rheolwr Polisi Cynllunio, Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Gwynedd a Môn** |

**Cefndir**

1. Cafodd Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ei sefydlu yn y lle cyntaf ym mis Mawrth 2011. Penderfynwyd bod holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn aelodau o'r Panel hwnnw. Ers iddo gael ei greu mae'r Panel wedi ystyried a chynnig sylwadau am ystod eang o ddogfennau a oedd yn allweddol i baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Dyma enghreifftiau o'r meysydd:

   i. Datblygu papur trafod i'w ddefnyddio i ymgysylltu gyda'r cyhoedd a rhanddeiliaid penodol a chyffredinol ynglŷn â chyfeiriad posib yr hoff strategaeth;
   ii. Roi mewnbwn i fethodoleg i asesu safleoedd fydd ar y Gofrestr Tir Posib;
   iii. Ystyried sail dystiolaeth ar gyfer ymgymryd ag Asesiad Cynaliadwyedd o'r Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd a rhoi mewnbwn i'r fframwaith asesu;
   iv. Ystyried casgliadau dechreuol nifer o astudiaethau, e.e. Astudiaeth Tir Cyflogaeth;
   v. Polisïau drafft a mapiau cynigion drafft y Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd;
   vi. Ystyried adroddiadau am sylwadau a dderbyniwyd gan y cyhoedd a rhanddeiliaid amrywiol yn ystod cyfnodau ymgynghori cyhoeddus

2. Mae Cylch Gorchwyl diwygiedig y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn rhan C1 (viii) yn rhoi'r hawl i'r Pwyllgor i:

"Penodi unrhyw banel neu weithgor er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaethau."

**Swyddogaethau'r Panel**

3. Mae swyddogaethau arfaethedig y Panel wedi cael eu cynnwys yn Atodiad 1 i'r papur yma. Gwelir mai prif bwrpas y Panel ydi ystyried a rhoi barn ar wybodaeth sy'n angenrheidiol i lywio datblygiad dogfennau polisi cynllunio allweddol sydd wedi cael eu hadnabod yng nghylch gorchwyl y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd. Rôl y Pwyllgor wedyn fydd un ai gwneud penderfyniad ar ddogfennau allweddol, neu roi arweiniad i'r Cabinet/ Pwyllgor Gwaith neu'r Cynghorau.

**Argymhelliad**

4. Gofynnir i'r Pwyllgor gymeradwyo ail-sefydlu'r Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'i fod yn gweithredu yn unol â'r cylch gorchwyl a welir yn Atodiad 1